9th March 2017

The fourth meeting of the Mynydd y Gwair Wind Farm Community Liaison Group

Tircoed Village Hall

Attendees
Philip McDonnell, Chair
Brigitte Rowlands, West Glamorgan Commoners Association
Councillor Kevin Griffiths, Pontarddulais Town and Community Council
Paul Newman, Clerk, Pontlliw and Tircoed Community Council
Councillor Wyn Morgan, Penllergaer Community Council
Councillor Paul Northcote, Mawr Community Council
Dean Howard, Highways & Transportation Street Works Manager, City and County of Swansea
Sergeant Philip Morris, South Wales Police
Emma North, Planning Officer, City and County of Swansea
David Owen, Planning Officer, City and County of Swansea
Neil Chambers, Contracts Manager, Dawnus Construction Ltd
Tim James, Construction Manager, Innogy Renewables UK Ltd
Jenny Cowley, Community Liaison Officer, Innogy Renewables UK Ltd
Angharad Davies, Cadno Communications Ltd

1. **Welcome and introductions**

The chair welcomed the group and asked everyone to introduce themselves.

2. **Apologies**

- Councillor Robert Jones, Mawr Community Council
- Mark Lewis, Security Concepts Advisor, Innogy Renewables UK Ltd

3. **Minutes of previous meeting and matters arising**

The chair asked group members to check the minutes for accuracy and approve the minutes.

3.1 The chair referred to item 3.1 of the minutes and asked members if this now reflected the discussion that took place. Members agreed that it did, and asked a number of further questions relating to the Community Investment Fund (CIF), in relation to items 3.1 and 3.4 of the minutes:

3.2 Jenny Cowley informed members that innogy was currently seeking an independent administrator for the CIF and that following their appointment, the process and timescales for the CIF would become clearer. The independent administrator was key to progress and would have a strong input into the development of the fund, including how the fund would be delivered and the money distributed.

3.3 Jenny outlined the indicative procurement process for appointing an independent administrator for the CIF, thus:

- 20th Feb – begin advertising tender opportunity
- 13th March – issue PQQ
- 10th April – return PQQ
- 24th April – supplier meeting
- 27th April – issue ITT
- 12th May – clarifications deadline
- 19th May – return of ITT
- Week of 22nd May – supplier interviews and final selections
- 5th June – contract award

3.4 No decisions on CIF design, delivery or process will be taken until the independent administrator is appointed.

3.5 A question was raised on item 4.2 and whether the archaeological investigation report (item 4.2) had been submitted to Swansea City Council (SCC). innogy agreed to report back on this matter. Action: innogy to find out when the report was submitted and report back to the next meeting.

3.6 It was confirmed that all of the outstanding pre-start planning conditions referred to in item 4.7 had been discharged satisfactorily.

3.7 The matter of whether there will be development in the Bolgoed Road area, on common land that has not been the subject of a release order, was raised again (item 4.12). innogy confirmed again that they are not placing any part of the track on unreleased common land and are therefore acting wholly within the planning permission and commons orders that have been granted, which includes placing some of the track on private land. innogy reiterated how important this matter was and that they are being very strict with contractors about where development can take place, in accordance with the planning permissions and consent orders issued. Members of the CLG felt that there was still some confusion and that SCC needed to clarify the matter. David Owen confirmed that a response to queries sent to SCC was being drafted and whilst he did not believe that there was a breach, the enforcement of common land regulation is a 'grey area', with Welsh Government responsible for the consenting process and the local authority responsible for registering the land. He further explained that innogy had produced a detailed plan, which had been sent to the SCC department responsible for common land registration. Further information from the common land registration team needed to be issued to innogy.

3.8 The minutes were agreed as a true record of the previous meeting.

4. **Update from Tim James**

4.1 Tim James confirmed that work at the Bolgoed Road entrance began on 6th February with tree felling and site clearance.

4.2 During tree felling, the Ecological Clerk of Works had been present throughout, and he, and a bat specialist (Bioscan) had confirmed that there were no bats or bat roosts found in any of the trees that had been felled.

4.3 Furthermore, there had been a site visit in response to concerns expressed by a local resident about bat roosts, attended by the SCC Ecologist, innogy's Ecologist, the local representative expressing concerns, local county Councillors, Jane Harris and Philip Downing, and Jenny Cowley. In the view of the ecologists, the site visit confirmed that no bats or bat roosts had been affected by the tree clearance activities. The concerned resident has not given any further feedback since the site visit. It was agreed that these minutes would provide a record of this site meeting and the conclusions drawn.

4.4 There is one tree on the site, still in situ, which does contain a bat roost. Tim James confirmed that whilst there is no requirement to fence around this tree, there is now a fence in place.

4.5 Section 278 works on the A48 (Bolgoed Road) have been completed, and the traffic lights should be taken down very shortly. In response to local residents, slight changes to the design had been submitted (and approved by SCC), which meant that whilst the curb had been raised to aid water flow, there was a lowered section to allow local residents to park their cars on the pavement.

4.6 The temporary welfare units situated in the local lay-by had now been moved onto site.

4.7 The Electrical and Civils Balance of Plant procurement processes are progressing on schedule and interviews with potential suppliers and contract negotiations are taking place with a view to placing the balance of plant contracts in June.

4.8 During the coming weeks, the access track construction will be progressed up onto Gopa Hill and works to construct the crossings over the the Dwr Cymru Welsh Water water mains would commence. Members were re-assured that this work was being carried out with the close cooperation of DCWW.

Questions to Tim:

4.9 One resident had complained about the noise of the workmen. Tim explained that it wasn't Dawnus contractors who had been accused of being noisy, but rather WPD contractors, carrying out work on the electricity supply. He confirmed that in response to the local resident's concerns, he had written to WPD, and that they had raised the matter with the line gang.

4.10 A resident had complained about a power outage. Tim confirmed that this was a scheduled WPD power outage, and that residents would have been notified of this by WPD who have a legal responsibility to inform residents of power outages, within a statutory notice period.

4.11 A resident had complained about a lorry being parked in front of their driveway. Tim James confirmed that he had been notified of this, and had raised it with Dawnus. The resident also asked Dawnus for the vehicle to be moved, which it was.

4.12 A resident had queried the agreed working hours, and felt that these were not being adhered to. Tim explained that the agreed working hours are 7.30 am until 7 pm during the week, with a requirement to confine heavy excavation work to between 9 am and 5 pm.

4.13 Tim stated that the works would be moving away from Bolgoed Road and this would reduce any noise impact.

4.14 Concern was expressed about a small number of vehicles coming to site through Pontarddulais, which is not allowable under the agreed Transport Management Plan. Tim further confirmed that Dawnus have been issued with written instructions to that effect. Neil Chambers from Dawnus said that all drivers had been instructed to stop using the Pontarddulais route. He explained that because drivers are local people – as it was a requirement of the contract to contract locally – they had local knowledge of the quickest routes and that it was always a temptation to take this. He believed that once a gateman is (shortly) in place, the problem of drivers taking the Pontarddulais road will be resolved.

4.15 The chair concluded that communication was very important and that it was inevitable that some workers would make the occasional mistake, but what was important was the commitment shown by Dawnus and innogy to resolve mistakes when they occurred.

4.16 Dawnus employees are liaising well with the local community, and Mark Mealing, innogy's site engineer, is very visible, too, resolving concerns as they arise.

4.17 There was a discussion on communications and liaison with the local community. Jenny Cowley reiterated that she was very happy to field all queries and that considerable efforts were being made to answer and resolve complaints in a timely manner. She urged CLG members to refer concerned local residents to the mynyddygwair@innogy.com e-mail address and other innogy points of contact that had already been circulated door-to-door.

4.18 Jenny suggested that, in the interests of transparency, and to ease communication, it would be good if the role and membership of the CLG could be highlighted in community council communications, such as in newsletters, on the CC websites, or on noticeboards.

4.19 A member of the CLG suggested that the best forum for communication was through the CC Facebook pages. It was agreed that the innogy contact points, the names and e-mail addresses of each representative from the CC's and of the WGCA would be uploaded onto each Facebook page by the relevant representative, along with a brief description of the role of the CLG, emphasising that it is not a decision making forum, merely an information sharing group. Action: Jenny Cowley to draft a standard paragraph and circulate to relevant members.

4.20 innogy (Jenny Cowley) is the first point of contact.

4.21 It was suggested that signage with contact information could be located at the site entrance, which Neil Chambers agreed to. Action: Dawnus to place contact information at the gatehouse.

4.22 It was suggested that CLG members might benefit from seeing the site, and it was agreed that this would be facilitated at the next meeting.

5. Update from Jenny Cowley

5.1 Jenny explained that she had visited residents on Bolgoed Road prior to the start of works and that her plan is to visit each household ahead of construction. If residents are not at home, a letter is left with contact information.
5.2 She felt that the interaction had been very useful – providing innogy with local knowledge.
5.3 20 people have been in touch with a variety of queries, some concerns and some praise.
5.4 The main issues have been around noise (during the first week), parking and unloading, and traffic through Pontarddulais (all of which had already been discussed under questions to Tim).
5.5 Jenny had attended the first meeting of Cwmddulais Residents, established to deal with matters such as anti-social behaviour and other community matters. Cllr Kevin Griffiths had also attended. Jenny felt that this would be a very useful forum for further information exchange and confirmed that she will continue to attend.
5.6 A timetable for road closures will be known by the next meeting. Ample warning will be given to local residents about any closures, including a letter-drop from Dawnus.
5.7 SCC confirmed that they attended site regularly and will continue to do so.

6. **AOB**

6.1 There was no AOB.

7. **Next meeting:**

The next meeting will be held on Thursday 20th April and will include a site visit at 5 pm for those who wish to take part, followed by a CLG meeting at 6pm at Pontarddulais Institute (subject to availability). Members will be notified of arrangements in due course.

Pedwerydd cyfarfod Grŵp Cyswllt Cymuned Fferm Wynt Mynydd y Gwair

Neuadd Bentref Tircoed

Yn bresennol

Philip McDonnell, Cadeirydd
Brigitte Rowlands, Cymdeithas Cominwyr Gorllewin Morgannwg
Y Cynghorydd Kevin Griffiths, Cyngor Tref a Chymuned Pontarddulais
Paul Newman, Clerc, Cyngor Cymuned Pontlliw a Thircoed
Y Cynghorydd Wyn Morgan, Cyngor Cymuned Penllergaer
Y Cynghorydd Paul Northcote, Cyngor Cymuned Mawr
Dean Howard, Rheolwr Priffyrdd, Cludiant a Gwaith Stryd, Dinas a Sir Abertawe
Rhingyll Philip Morris, Heddlu De Cymru
Emma North, Swyddog Cynllunio, Dinas a Sir Abertawe
David Owen, Swyddog Cynllunio, Dinas a Sir Abertawe
Neil Chambers, Rheolwr Contractau, Dawnus Construction Ltd
Tim James, Rheolwr Adeiladu, Innogy Renewables UK Ltd
Jenny Cowley, Swyddog Cyswllt Cymuned, Innogy Renewables UK Ltd
Angharad Davies, Cadno Communications Ltd

1. Croeso a chyflwyniadau

Estynnodd y cadeirydd groeso i'r grŵp a gofynnodd i bawb gyflwyno eu hunain.

2. Ymddiheuriadau

- Y Cynghorydd Robert Jones, Cyngor Cymuned Mawr
- Mark Lewis, Cynghorydd Cysyniadau Diogelwch, Innogy Renewables UK Ltd

3. Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion yn codi

Gofynnodd y cadeirydd i aelodau'r grŵp gadarnhau bod y cofnodion yn gywir a'u cymeradwyo.

3.1 Cyfeiriodd y cadeirydd at eitem 3.1 yn y cofnodion a gofynnodd i'r aelodau a oedd yn adlewyrchu'r drafodaeth a gafwyd. Cytunodd yr aelodau ei bod a gofynnwyd nifer o gwestiynau pellach am y Gronfa Buddsoddi Cymunedol (CIF), yng nghyswllt eitemau 3.1 a 3.4 yn y cofnodion:

3.2 Dywedodd Jenny Cowley wrth yr aelodau fod innogy ar hyn o bryd yn chwilio am weinyddwr annibynnol ar gyfer y CIF ac yn dilyn penodi rhywun y byddai'r broses a'r amserlen ar gyfer y CIF yn dod yn gliriach. Roedd y gweinyddwr annibynnol yn allweddol i gynnydd a byddai'n cyfrannu mewnbwn cryf i ddatblygiad y gronfa, gan gynnwys sut y byddai'r gronfa'n cael ei darparu a sut y byddai'r arian yn cael ei ddosbarthu.

3.3 Eglurodd Jenny y broses gaffael oedd mewn golwg ar gyfer penodi gweinyddwr annibynnol ar gyfer y CIF, fel a ganlyn:

- 20 Chwe – dechrau hysbysebu'r cyfle tendro
- 13 Mawrth – cyhoeddi PQQ
- 10 Ebrill – dychwelyd y PQQ
- 24 Ebrill – cyfarfod gyda chyflenwyr
- 27 Ebrill – cyhoeddi ITT
- 12 Mai – dyddiad cau ar gyfer manylion pellach
- 19 Mai – dychwelyd y ITT
- Wythnos yn dechrau 22 Mai – cyfweliadau gyda chyflenwyr a dewisiadau terfynol.
- 5 Mehefin – dyfarnu'r contract

3.4 Ni fyddai unrhyw benderfyniad ar ddyluniad, darparu na phroses y CIF yn cael ei wneud hyd nes y byddai'r gweinyddwr annibynnol wedi'i benodi.

3.5 Gofynnwyd cwestiwn am eitem 4.2 ac a oedd yr adroddiad ar yr ymchwiliad archeolegol (eitem 4.2) wedi cael ei gyflwyno i Gyngor Dinas Abertawe. Cytunodd innogy i adrodd yn ôl ar y mater hwn. Gweithredu: innogy i holi pryd y cafodd yr adroddiad ei gyflwyno ac adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf.

3.6 Cadarnhawyd fod yr holl amodau cynllunio cyn-dechrau y cyfeiriwyd atynt yn eitem 4.7 wedi eu gweithredu'n foddhaol.

3.7 Codwyd y mater eto (eitem 4.12) a fyddai datblygiad yn ardal Bolgoed Road, ar dir comin na fu'n destun gorchymyn rhyddhau. Cadarnhaodd innogy eto nad ydynt yn bwriadu gosod unrhyw ran o'r trac ar dir comin heb ei ryddhau a'u bod felly'n gweithredu'n gwbl unol â'r caniatâd cynllunio a'r gorchmynion tir comin sydd wedi eu cydsynio, sy'n cynnwys gosod peth o'r trac ar dir preifat. Dywedodd innogy unwaith eto pa mor bwysig oedd hyn a'u bod yn llym iawn gyda'r contractwyr o ran lle'r oedd datblygu i ddigwydd, yn unol â'r caniatadau cynllunio a'r gorchmynion cydsynio. Teimlai aelodau o'r CLG fod peth dryswch o hyd a bod angen i Gyngor Dinas Abertawe egluro'r mater ymhellach. Cadarnhaodd David Owen fod ymateb i'r cwestiynau a anfonwyd at Gyngor Dinas Abertawe'n cael ei ddrafftio ac er na chredai fod unrhyw dor-caniatâd yn digwydd, roedd gorfodi rheoliadau tir comin yn faes 'annelwig' a Llywodraeth Cymru oedd yn gyfrifol am y broses ganiatâd, a'r awdurdod lleol yn gyfrifol am gofrestru'r tir. Eglurodd ymhellach fod innogy wedi cynhyrchu cynllun manwl oedd wedi'i anfon at yr adran yng Nghyngor Dinas Abertawe oedd yn gyfrifol am gofrestru tir comin. Roedd angen i'r tîm cofrestru tir comin roi mwy o wybodaeth i innogy.

3.8 Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gofnod cywir.

4. Diweddariad gan Tim James

4.1 Cadarnhaodd Tim James fod y gwaith wrth y fynedfa i Bolgoed Road wedi dechrau ar 6 Chwefror gyda chwympo coed a chlirio'r safle.

4.2 Wrth gwympo'r coed, roedd Clerc Gwaith Ecolegol wedi bod yn bresennol drwy'r adeg ac roedd ef, ac arbenigwr ar ystlumod (Bioscan), wedi cadarnhau nad oedd unrhyw ystlumod na chlwydi ystlumod yn unrhyw un o'r coed oedd wedi cael eu cwympo.

4.3 Roedd ymweliad safle hefyd wedi'i wneud mewn ymateb i bryderon gan breswylydd lleol ynghylch clwydi ystlumod, gydag Ecolegydd Cyngor Dinas Abertawe, Ecolegydd innogy, y person lleol a leisiodd y pryderon, Cynghorwyr Sir lleol, Jane Harris a Philip Downing, a Jenny Cowley oll yn bresennol. Ym marn yr ecolegwyr, roedd yr ymweliad safle wedi cadarnhau nad oedd y gwaith clirio coed wedi effeithio ar unrhyw ystlumod na chlwydi ystlumod. Ni chafwyd unrhyw adborth pellach gan y preswylydd dan sylw ers yr ymweliad safle. Cytunwyd y byddai'r cofnodion hyn yn gofnod o'r ymweliad safle hwn a'r casgliadau a wnaed.

4.4 Mae un goeden yn dal i sefyll ar y safle, sy'n cynnwys clwyd i ystlumod. Cadarnhaodd Tim James er nad oedd yn ofynnol ffensio o gwmpas y goeden hon, bod ffens bellach wedi'i chodi.

4.5 Mae'r gwaith Adran 278 ar yr A48 (Bolgoed Road) wedi ei gwblhau a dylai'r goleuadau traffig ddod i lawr yn fuan iawn. Mewn ymateb i breswylwyr lleol, roedd mân newidiadau i'r dyluniad wedi eu cyflwyno (a'u cymeradwyo gan Gyngor Dinas Abertawe), felly er bod y cwrb wedi'i godi i hwyluso llif y dŵr, roedd rhan is hefyd fel y gallai preswylwyr lleol barcio eu ceir ar y pafin.

4.6 Roedd yr unedau lles dros dro yn y gilfach barcio leol wedi eu symud i'r safle bellach.

4.7 Mae'r prosesau i gaffael y Cyfleusterau a'r Seilwaith Gwaith Sifil a Thrydanol mewn llaw ac ar amser, gyda chyfweliadau â chyflenwyr posib a thrafodaethau contract yn cael eu cynnal gyda golwg ar osod y contractau hyn ym mis Mehefin.

4.8 Yn ystod yr wythnosau i ddod, bydd gwaith ar y trac mynediad i fyny at Fynydd y Gopa yn cael ei wneud a gwaith yn dechrau ar greu croesfannau dros beipen prif gyflenwad Dŵr Cymru. Sicrhawyd yr aelodau bod y gwaith hwn yn cael ei wneud gyda chydweithrediad agos y DCWW.

Cwestiynau i Tim:

4.9 Roedd un preswylydd wedi cwyno am sŵn y dynion yn gweithio. Eglurodd Tim nad contractwyr Dawnus a gyhuddwyd o fod yn swnllyd ond yn hytrach contractwyr WPD wrth gyflawni gwaith ar y cyflenwad trydan. Cadarnhaodd, mewn ymateb i bryderon y preswylydd lleol, ei fod wedi ysgrifennu at WPD a'u bod wedi codi'r mater gyda'r dynion ar y ddaear.

4.10 Roedd preswylydd wedi cwyno am golli trydan. Cadarnhaodd Tim fod colli'r trydan yn rhan o raglen WPD ac y byddai WPD wedi rhoi gwybod i'r preswylwyr ymlaen llaw oherwydd bod ganddynt gyfrifoldeb cyfreithiol i roi gwybod i breswylwyr os bwriedir colli trydan, o fewn cyfnod hysbysu statudol.

4.11 Roedd preswylydd wedi cwyno bod lori wedi parcio o flaen eu dreif. Cadarnhaodd Tim James ei fod wedi cael ei hysbysu o hyn, ac wedi codi'r mater gyda Dawnus. Roedd y preswylydd hefyd wedi gofyn i Dawnus symud y cerbyd ac roedd hynny wedi'i wneud.

4.12 Roedd preswylydd wedi holi am yr oriau gwaith cytunedig gan deimlo nad oedd y gweithwyr yn cadw atynt. Eglurodd Tim mai'r oriau gwaith cytunedig oedd rhwng 7.30am a 7pm yn ystod yr wythnos a'i bod yn ofynnol cyfyngu unrhyw waith tyllu trwm i'r oriau rhwng 9am a 5pm.

4.13 Dywedodd Tim y byddai'r gwaith yn symud i ffwrdd o Bolgoed Road ac y byddai unrhyw effaith sŵn yn lleihau.

4.14 Lleisiwyd pryderon am nifer fach o gerbydau oedd yn dod i'r safle drwy Bontarddulais, rhywbeth na chaniateir o dan y Cynllun Rheoli Trafnidiaeth cytunedig. Cadarnhaodd Tim ymhellach fod Dawnus wedi derbyn cyfarwyddyd ysgrifenedig i'r perwyl hwn. Dywedodd Neil Chambers o Dawnus fod cyfarwyddyd wedi'i roi i'r holl yrwyr i beidio â defnyddio'r ffordd drwy Bontarddulais. Eglurodd oherwydd bod y gyrwyr yn bobl leol – roedd yn un o ofynion y contract eu bod yn contractio'n lleol – bod ganddynt wybodaeth leol am y ffordd fwyaf cyflym i gyrraedd y safle a'i bod o hyd yn demtasiwn dewis honno. Credai unwaith y byddai porthor yn ei le (yn fuan) y byddai'r broblem o yrwyr yn dod drwy Bontarddulais yn cael ei datrys.

4.15 Daeth y cadeirydd i'r casgliad fod cyfathrebu'n bwysig iawn a'i bod yn anochel y byddai rhai gweithwyr yn gwneud ambell i gamgymeriad ond mai'r hyn oedd yn bwysig oedd ymrwymiad Dawnus ac innogy i ddatrys camgymeriadau pan oeddent yn codi.

4.16 Mae gweithwyr Dawnus yn cynnal cyswllt da â'r gymuned leol ac mae Mark Mealing, peiriannydd safle innogy, hefyd yn weladwy iawn ac yn datrys pryderon wrth iddynt godi.

4.17 Cafwyd trafodaeth am gyfathrebu a chynnal cyswllt â'r gymuned leol. Dywedodd Jenny Cowley eto ei bod yn hapus iawn derbyn unrhyw gwestiwn a bod ymdrechion sylweddol yn cael eu gwneud i ateb a datrys cwynion yn brydlon. Pwysodd ar aelodau o'r CLG i gyfeirio preswylwyr lleol oedd ag unrhyw bryderon at gyfeiriad e-bost mynyddygwair@innogy.com a phwyntiau cyswllt eraill gan innogy oedd eisoes wedi eu dosbarthu o ddrws i ddrws.

4.18 Awgrymodd Jenny, er mwyn bod yn dryloyw ac agored ac i hwyluso cyfathrebu, y byddai'n dda pe gellid rhoi sylw i rôl ac aelodaeth y CLG drwy ddulliau cyfathrebu'r cynghorau cymuned, er enghraifft mewn cylchlythyrau, ar wefan y Cynghorau Cymuned, neu ar hysbysfyrddau.

4.19 Awgrymodd aelod o'r CLG mai'r fforwm gorau ar gyfer cyfathrebu oedd drwy dudalennau Facebook y Cynghorau Cymuned. Cytunwyd y byddai pwyntiau cyswllt innogy, enwau a chyfeiriadau e-bost holl gynrychiolwyr y Cynghorau Cymuned a rhai'r WLGA yn cael eu lanlwytho i bob tudalen Facebook gan y cynrychiolwyr perthnasol, ynghyd â disgrifiad byr o rôl y CLG yn pwysleisio nad yw'n fforwm sy'n gwneud penderfyniadau, dim ond grŵp sy'n rhannu gwybodaeth. Gweithredu: Jenny Cowley i ddrafftio paragraff cyffredinol a'i gylchredeg i'r aelodau perthnasol.

4.20 innogy (Jenny Cowley) yw'r pwynt cyswllt cyntaf.

4.21 Awgrymwyd y gellid codi arwyddion gyda gwybodaeth am sut i gysylltu wrth y fynedfa i'r safle, a chytunodd Neil Chambers i wneud hyn. Gweithredu: Dawnus i osod gwybodaeth am sut i gysylltu wrth y fynedfa.

4.22 Awgrymwyd y gallai aelodau o'r CLG elwa o weld y safle a chytunwyd y byddai hyn yn cael ei hwyluso yn y cyfarfod nesaf.

5. Diweddariad gan Jenny Cowley

5.1 Eglurodd Jenny ei bod wedi ymweld â phreswylwyr ar hyd Bolgoed Road cyn i'r gwaith ddechrau a'i bod yn bwriadu ymweld â phob cartref cyn i'r gwaith ddechrau. Os nad yw'r preswylwyr gartref, mae llythyr gyda manylion cyswllt yn cael ei adael.

5.2 Teimlai fod y cyswllt â'r preswylwyr wedi bod yn ddefnyddiol iawn – gan roi gwybodaeth leol i innogy.

5.3 Roedd 20 o bobl wedi cysylltu gydag amrywiaeth o ymholiadau, rhai pryderon a pheth canmoliaeth.

5.4 Y prif bryder oedd sŵn (yn ystod yr wythnos gyntaf), parcio a dadlwytho, a thraffig drwy Bontarddulais (ac roedd y rhain i gyd wedi eu trafod fel rhan o'r cwestiynau i Tim).

5.5 Roedd Jenny wedi mynychu cyfarfod cyntaf Preswylwyr Cwmdulais, a sefydlwyd i ddelio â materion fel ymddygiad gwrthgymdeithasol a materion cymunedol eraill. Roedd y Cyng. Kevin Griffiths hefyd wedi mynychu. Teimlai Jenny y byddai hwn yn fforwm defnyddiol iawn i gyfnewid mwy o wybodaeth gan gadarnhau y bydd yn parhau i fynychu.

5.6 Bydd amserlen ar gyfer cau ffyrdd ar gael erbyn y cyfarfod nesaf. Rhoddir digon o rybudd i breswylwyr lleol am gau unrhyw ffyrdd, gan gynnwys llythyr gan Dawnus.

5.7 Cadarnhaodd Cyngor Dinas Abertawe eu bod yn mynd i'r safle'n rheolaidd gan fwriadu parhau i wneud hynny.

6. Unrhyw Fusnes Arall

Nid oedd unrhyw fusnes arall.

7. Y cyfarfod nesaf:

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar ddydd Iau 20 Ebrill a bydd yn cynnwys ymweliad safle am 5pm i rai sydd am fynd i weld y safle, gyda chyfarfod o'r CLG i ddilyn am 6pm yn Stiwt Pontarddulais (os bydd ar gael). Hysbysir yr aelodau o'r trefniadau maes o law.